## ATODLEN 4

Rheoliad 28(4)

## COFNODION ERAILL

**1.** Cofnod ar ffurf cofrestr yn dangos mewn perthynas â phob plentyn sy'n cael ei letya yn y cartref plant—

(a) y dyddiad y cafodd ei dderbyn i'r cartref;

(b) y dyddiad y peidiodd â chael ei letya yno;

(c) ei gyfeiriad cyn iddo gael ei letya yn y cartref;

(ch) ei gyfeiriad ar ôl iddo ymadael â'r cartref plant;

(d) ei awdurdod lleoli;

(dd) y ddarpariaeth statudol, os oes un, y cafodd ei letya yn y cartref odani.

**2.** Cofnod o bob person sy'n gweithio yn y cartref plant, a hwnnw'n gofnod y mae'n rhaid iddo gynnwys y manylion canlynol mewn perthynas ag unigolyn sy'n dod o dan reoliad 26(1)—

(a) enw llawn;

(b) rhyw;

(c) dyddiad geni;

(ch) cyfeiriad cartref;

(d) cymwysterau sy'n berthnasol i waith sy'n ymwneud â phlant, a'i brofiad o waith sy'n ymwneud â phlant;

(dd) a yw'n gweithio'n amser llawn neu'n rhan-amser yn y cartref, (am dâl neu beidio) ac os yw'n rhan-amser, y nifer o oriau ar gyfartaledd y mae'n gweithio bob wythnos; ac

(e) a yw'n preswylio yn y cartref.

**3.** Cofnod o unrhyw berson sy'n preswylio neu'n gweithio ar unrhyw adeg yn y cartref plant nad yw wedi'i grybwyll yn y cofnodion a gedwir yn unol â pharagraff 1 neu 2.

**4.** Cofnod o bob damwain sy'n digwydd yn y cartref plant, neu i blant tra maent yn cael eu lletya yn y cartref.

**5.** Cofnod o unrhyw feddyginiaeth a dderbyniwyd, a waredir ac a roddwyd i unrhyw blentyn.

**6.** Cofnod o bob ymarfer tân neu brawf larwm tân a gynhelir, gyda manylion unrhyw ddiffyg naill ai yn y weithdrefn neu yn yr offer o dan sylw, ynghyd â manylion y camau a gymerwyd i gywiro'r diffyg hwnnw.

**7.** Cofnod o bob arian a adneuwyd gan blentyn i'w gadw'n ddiogel, ynghyd â dyddiad tynnu'r arian hwnnw, neu'r dyddiad y dychwelwyd ef.

**8.** Cofnod o bob peth gwerthfawr a adneuwyd gan blentyn a dyddiad ei ddychwelyd.

**9.** Cofnodion o bob cyfrif a gedwir yn y cartref plant.

**10.** Cofnod o'r bwydlenni a weinwyd.

**11.** Cofnod, yn unol â rheoliad 17(4), o bob mesur disgyblu a orfodwyd ar blentyn.

**12.** Cofnodion o bob roster dyletswyddau staff, a chofnod o'r rosteri a weithiwyd mewn gwirionedd.

**13.** Lòg dyddiol o'r digwyddiadau sy'n digwydd yn y cartref.

**14.** Cofnod o bob ymwelydd â'r cartref ac â phlant sy'n cael eu lletya yn y cartref, gan gynnwys enwau'r ymwelwyr a'r rhesymau am yr ymweliad.